Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnod o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

FERSIWN 4 – GORFFENNAF 2026

Crynodeb o'r cynnig

1. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

2. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: “cryfhau economi Cymru” drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

3. Nid yw'r DPCC yn cyflwyno polisi newydd. Yn lle hynny, mae'n dwyn polisïau presennol a deddfwriaeth caffael gyfredol ynghyd mewn un fframwaith strategol i gefnogi'r flaenoriaeth gyffredinol o gryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus.

4. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y DPCC yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Cwestiynau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1. Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio'r broses o ddatblygu neu weithredu'r polisi hwn neu'r ddeddfwriaeth hon?

5. **Hirdymor:** Mae'r DPCC yn canolbwyntio ar greu cadwyni cyflenwi gwydn, helpu busnesau Cymru i gystadlu a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach, gwella gallu'r gweithlu, rhoi egwyddorion gwaith teg ar waith ac annog arloesedd. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi sero net, yn cymhwyso egwyddorion economi gylchol ac yn ystyried costau oes gyfan ac effeithiau carbon gan ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar yr un pryd. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

6. **Atal:** mae'n hyrwyddo cynllunio ac ymgysylltu â'r farchnad ynghynt, dylunio caffael cymesur a rheoli contractau yn weithredol er mwyn nodi rhwystrau, risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni a thanberfformiad cyn iddynt ymwreiddio.

7. **Integreiddio:** Mae'r DPCC yn uno ymrwymiadau trawsbynciol i gyflawni'r flaenoriaeth o gryfhau economi Cymru, drwy ddatgan y dylid defnyddio gweithgarwch caffael i gefnogi a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol ac iechyd Cymru. Mae'r DPCC yn pwysleisio bod cynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol, a bod mesurau atal ac ymyrryd yn gynnar yn cael eu cefnogi, gan gryfhau cymunedau Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg ar yr un pryd. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4.

8. **Cydweithio:** Mae'r DPCC yn cefnogi ymgysylltu rhwng Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr, busnesau bach a chanolig (BBaChau), mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, gweithwyr a chymunedau.

9. **Cynnwys:** Mae'r DPCC yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu'n gynnar ac yn gymesur â chyflenwyr a'r farchnad a all helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i ddeall cyfyngiadau'r farchnad, tra bod cyflenwyr yn cael cyfle i ddysgu am gyfleoedd sydd ar ddod. Mae ffocws ar greu cyfoeth cymunedol drwy wella mynediad teg at gaffael cyhoeddus ar gyfer BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, er enghraifft drwy ystyried defnyddio lotiau ar gyfer contractau (rhannu contractau mwy yn gyfleoedd llai er mwyn lleihau rhwystrau). Anogir cyhoeddi hysbysiadau sy'n rhoi gwybod i'r farchnad bod ymarferion caffael penodol yn debygol o gael eu cynnal dros y 18 mis nesaf a darparu gwybodaeth hygyrch am dendrau er mwyn sicrhau bod gan gyflenwyr amser i baratoi a deall cyfleoedd yn y dyfodol.

2. Â phwy rydych chi wedi cydweithio a phwy rydych chi wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, gan gynnwys ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)

10. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios (ym mis Awst 2026) fel rhan o gam datblygu cychwynnol y DPCC. Roedd hyn yn cynnwys:

- Tîm Gwaith Teg
- Swyddogion polisi dur
- Swyddogion polisi bwyd
- Swyddogion cyflawni caffael
- Swyddogion polisi a deddfwriaeth caffael
- Swyddogion polisi amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo yn y meysydd canlynol:
    - datgarboneiddio
    - sero net
    - hinsawdd
    - economi gylchol
    - economi sylfaenol
- Swyddogion polisi gwerth cymdeithasol

- Swyddogion polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11. Y bwriad yw ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC, lle gall cyflenwyr, Awdurdodau Contractio yng Nghymru ac aelodau'r cyhoedd fwrw golwg dros y fersiwn ddrafft o'r DPCC a chyflwyno sylwadau.

3. Ym mha ffordd y mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?

12. Nod y DPCC yw defnyddio gweithgarwch caffael i sicrhau mwy o werth i Gymru drwy gryfhau cadwyni cyflenwi a chwmnïau yng Nghymru, cefnogi swyddi, sgiliau a gwaith teg, ehangu mynediad teg at gontractau cyhoeddus, annog arloesedd a dangos manteision ehangach. Mae ei ddisgwyliad trawsbynciol o ran cynaliadwyedd yn annog Awdurdodau Contractio yng Nghymru o fewn cwmpas statudol i gefnogi sero net, lleihau gwastraff, cymhwyso egwyddorion economi gylchol, ystyried costau oes gyfan ac effeithiau carbon a diogelu'r amgylchedd naturiol. Mae'r DPCC yn hyrwyddo defnyddio gweithgarwch caffael i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a llesiant iechyd, lleihau anghydraddoldebau, cryfhau cymunedau Cymraeg a sicrhau gwerth am arian yn yr hirdymor. Caiff effeithiau eu cydnabod drwy gaffaeliadau unigol, a rhaid darparu tystiolaeth ohonynt drwy fesurau cymesur, adroddiadau cyflenwyr a rheoli contractau. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4.

4. Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ar draws pob un o'r saith nod llesiant?

Cymru lewyrchus

13. Gallai fod effeithiau cadarnhaol drwy weithredu egwyddorion gwaith teg sy'n helpu i wella hyfforddiant a datblygiad i'r gweithlu, darparu prentisiaethau lle bo'n briodol ar gyfer y caffaeliad, buddsoddi mewn sgiliau lleol, cyflogadwyedd a chynnydd. Mae'r DPCC yn cefnogi arloesedd, gan gynnwys datrysiadau digidol arloesol, a gallai fod effeithiau cadarnhaol drwy ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir yn y DPCC i annog arloesedd mewn caffaeliadau. Anogir cefnogi sectorau economi sylfaenol Cymru lle mae capasiti cyflenwyr yng Nghymru yn realistig (megis cynhyrchu a phrosesu bwyd a phren, neu adeiladu), y gellir ei gyflawni drwy ymgysylltu gwell cyn y farchnad.

14. Gallai cymhwyso'r DPCC mewn ffordd gadarnhaol wella gwydnwch y gadwyn gyflenwi a sicrhau bod mwy o werth yn cael ei gadw yng Nghymru drwy gynyddu cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru a BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yng Nghymru.

15. Gallai effeithiau negyddol posibl ddeillio o feichiau adrodd cynyddol ar Awdurdodau Contractio yng Nghymru a chyflenwyr, gofynion tendro anghymesur neu allu anghyson cyflenwyr sy'n atal cystadleuaeth ac arloesedd.

Cymru gydnerth

16. Mae gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru yn un o egwyddorion pwysig y DPCC, gyda chynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried sut y gall pob caffaeliad unigol gefnogi sero net a lleihau gwastraff, cymhwyso egwyddorion economi gylchol, ystyried costau oes gyfan ac effeithiau carbon a diogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â pharagraff 4. O'i gymhwyso'n briodol at bob caffaeliad, gallai fod effeithiau cadarnhaol wrth greu Cymru â gwydnwch amgylcheddol cryfach a gwell, a gwelliannau economaidd a chymdeithasol. Gallai fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn cymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd, neu os na fyddant yn monitro'r ffordd y caiff contractau eu cyflawni a'r canlyniadau cysylltiedig.

Cymru iachach

17. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys drwy ystyried iechyd a llesiant Cymru fel ymrwymiad trawsbynciol. Mae'r DPCC yn cynnig cyfleoedd anuniongyrchol i gael effaith gadarnhaol ar lesiant corfforol a meddyliol pobl. Mae'n cefnogi egwyddorion gwaith teg, lle yr anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru i gefnogi hyfforddiant a datblygiad gwell i'r gweithlu a buddsoddi mewn datblygu sgiliau lleol, cyflogadwyedd a chynnydd. Gofynnir i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried darparu ar gyfer prentisiaethau yn eu contractau lle bo hynny'n gymesur ac yn briodol. Gall mesurau o'r fath arwain at wella llesiant meddyliol a chorfforol mewn ffordd gadarnhaol drwy gyfleoedd gwaith gwell, gan roi cyfle i weithwyr ddatblygu yn y gweithle, a gwella sgiliau, gan gynyddu cyfleoedd gwaith lleol ar yr un pryd.

18. Gallai fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ystyried anghenion lleol yn briodol ac os na fyddant yn darparu ar gyfer gwella'r gweithlu na phrentisiaethau.

Cymru sy'n fwy cyfartal

19. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, a dileu'r rhwystrau i dendro y mae BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yn eu hwynebu ac ystyried sut y gallant greu swyddi newydd â chyflog da. Mae mesurau yn cynnwys cymhwyso egwyddorion gwaith teg, buddsoddi mewn datblygu sgiliau lleol (megis drwy brentisiaethau a datblygu'r gweithlu), annog tendro ar sail consortiwm, a monitro'r ffordd y mae ymrwymiadau o ran cyflogaeth a sgiliau yn cael eu cyflawni drwy ddangosyddion perfformiad allweddol cymwys a rheoli contractau. Gall cyhoeddi piblinellau caffael sy'n rhoi gwybod am gontractau sydd i ddod, defnyddio ymgysylltu cymesur cynnar cyn y farchnad a defnyddio lotiau (rhannu contractau mawr yn gontractau hydrin llai o faint) helpu i leihau'r rhwystrau y mae busnesau lleol yng Nghymru, BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yn eu hwynebu.

20. Gallai'r dulliau gweithredu hyn gynyddu hyd yr eithaf ar gyfleoedd i bobl o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru a hygyrchedd contractau i fusnesau yng Nghymru, a fyddai'n cadw gwerth o fewn economi Cymru.

Gallai fod effeithiau negyddol os na chaiff mesurau o'r fath eu cymhwyso'n deg, neu os na chaiff y ffordd y mae contractau yn cael eu cyflawni ei fonitro, a fyddai'n arwain at weithredu a rheoli prentisiaethau neu hyfforddiant i'r gweithlu yn wael, neu os bydd gweithgarwch ymgysylltu cyn y farchnad yn methu ag annog BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol i dendro am gontractau.

Cymunedau cydlynol

21. Mae creu cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach yn allweddol i'r DPCC, gyda ffocws ar greu cyfoeth cymunedol, gan gynnwys lle mae'n bosibl cefnogi'r economi sylfaenol (cynhyrchu bwyd a phren, adeiladu, cynnal a chadw, rheoli cyfleusterau, gofal cymdeithasol a gwasanaethau proffesiynol), a helpu i gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd a chymunedol. Mae pa mor dda y caiff hyn ei gymhwyso yn dibynnu ar gaffaeliadau unigol, ond gallai fod effeithiau cadarnhaol os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ceisio helpu busnesau Cymru i gystadlu, os byddant yn ystyried sut y gall eu caffaeliadau unigol wella llesiant cymdeithasol, economaidd a chymunedol. Ar y llaw arall, os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn nodi'r ffordd y gallant ddefnyddio eu caffaeliadau i roi'r DPCC ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol, mae'n bosibl na fydd unrhyw effeithiau o gwbl neu gallai fod effeithiau negyddol o ran creu cymuned gref gydlynol.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

22. Mae'r DPCC yn nodi y dylid defnyddio gweithgarwch caffael fel dull strategol o ddeall sut mae gwariant cyhoeddus yn cyfrannu at y Gymraeg, llesiant diwylliannol a chanlyniadau gwell i Gymru. Mae angen i Awdurdodau Contractio yng Nghymru allu dangos sut mae gweithgarwch caffael wedi sicrhau manteision pendant yn erbyn y nodau hyn, drwy adroddiadau cyflenwyr ac adroddiadau blynyddol lle bo'n berthnasol. Os caiff trefniadau monitro contractau eu rhoi ar waith a'u rheoli'n llwyddiannus, gall Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio hynny i ddeall ble maent yn llwyddo yn erbyn y nodau hyn, a meysydd i'w gwella, a all gael effeithiau cadarnhaol.

23. Gallai gwaith rheoli contractau gwael gael effeithiau negyddol os na ddeëllir anghenion cymunedau lleol yn briodol ac nad ymdrinnir â nhw, felly, lle y bo'n ymarferol mewn caffaeliadau perthnasol.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

24. Mae cynaliadwyedd yn un o ddisgwyliadau'r DPCC, a rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru o fewn cwmpas statudol ystyried DPCC, gan gynnwys yr ymrwymiad hwn. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Mae cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer effeithiau cadarnhaol pendant os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn nodi'n briodol pa gaffaeliadau y gellir eu defnyddio i wneud y canlynol:
    - cefnogi sero net a lleihau gwastraff,
    - lle y gallant gymhwyso egwyddorion economi gylchol,
    - ystyried sut y byddai manylebau'r contract yn effeithio ar gostau oes gyfan ac effeithiau carbon,
    - a sut y gellir defnyddio gweithgarwch caffael i ddiogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

5. Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau parhaus?

25. Mae'r DPCC wedi'i ddatblygu gan swyddogion polisi caffael yn seiliedig ar y gofynion o dan Ddeddf Caffael 2023 – yn enwedig adran 14, sy'n darparu'r sail statudol ar gyfer y DPCC ac yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio perthnasol yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 "ystyried" y datganiad wrth ymgymryd â chaffael cyhoeddus. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd y tu allan i gwmpas y Ddeddf ystyried y DPCC. Fodd bynnag, fe'u hanogir yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

26. Mae deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru hefyd wedi'i hymgorffori wrth ddatblygu'r datganiad polisi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae system Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cymru wedi'i chynnwys yn y DPCC er mwyn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth o gryfhau economi Cymru.

27. Caiff adborth a geir o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC ei werthuso a, lle bo'n briodol, gallai helpu i lywio'r fersiwn derfynol o'r DPCC a osodir gerbron y Senedd. Caiff y DPCC ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a pholisi cyfredol.

Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

Cyhoeddi gorfodol (os yw'r Asesiad Effaith yn ofynnol)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Hawliau Plant

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Iechyd

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **I'w gyhoeddi**

Asesiadau Effaith Eraill

Asesiad Effaith y Gymraeg

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Diogelu Data

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Bioamrywiaeth

Wedi'i gwblhau: **Nid yw'n ofynnol ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Carbon

Wedi'i gwblhau: **Nid yw'n ofynnol ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad Effaith Dyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Wedi'i gwblhau: **Nid yw'n ofynnol ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Cynnwys

1. Asesiad Effaith Cydraddoldeb 10
2. Asesiad Effaith Hawliau Plant 22
3. Asesiad Effaith Iechyd 27
4. Asesiad Effaith y Gymraeg 32
5. Sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Diogelu Data 38
6. Asesiad Effaith Bioamrywiaeth 40
7. Asesu Adnoddau Naturiol 45
8. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig 47
9. Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy 49
10. Asesiad Effaith Carbon 53
11. Dyletswydd Ansawdd (Iechyd) 54
12. Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 56
13. Datganiad ..... **Error! Bookmark not defined.**

1. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

TEMPLED ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

GWNEUD PENDERFYNIADAU GWELL A THECACH

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

1. Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

2. Beth mae eich cynnig yn ceisio ei gyflawni?

2. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.
3. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.
4. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y DPCC yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

3. Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?

5. Ebrill 26

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'n debygol yr effeithir arnynt?

6. Awdurdodau Contractio yng Nghymru ac ymarferwyr caffael; busnesau a chyflenwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau) a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol; cyflogeion a gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi contractau cyhoeddus; prentisiaid, pobl sy'n chwilio am waith a phobl sy'n awyddus i ailhyfforddi neu gamu ymlaen; defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus; cymunedau y mae canlyniadau caffael yn effeithio arnynt; sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; undebau llafur a chynrychiolwyr y gweithlu; a phartneriaid cyflawni sy'n gyfrifol am ganllawiau, dysgu, data, adrodd a goruchwylio

5. A ydych wedi cofrestru eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar iShare?

Ydw

B. Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig ac ymgysylltu â phobl o'r fath

OEDRAN

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

7. Mae'r DPCC yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â phrentisiaethau, swyddi a sgiliau, datblygu'r gweithlu, gwaith teg, trawsnewid digidol a chanlyniadau gwasanaethau cyhoeddus. Gall yr ysgogiadau hyn effeithio ar bobl iau sy'n ymuno â'r byd gwaith am y tro cyntaf, pobl o oedran gweithio a gweithwyr hŷn neu ddefnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, defnyddio prosesau datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ailhyfforddi gweithwyr hŷn ar gyfer rolau newydd, neu brentisiaeth er mwyn helpu gweithwyr hŷn i ddechrau gyrfa newydd. Yn ystod cam datblygu cychwynnol y DPCC, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios (mis Awst 2026) ac ystyriwyd eu hadborth.

2. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

8. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd am y ffordd y bydd y DPCC yn effeithio ar wahanol grwpiau oedran. Bwriedir ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid drwy ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn galluogi Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr a'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau.

3. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

9. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adran gaffael a Gwaith Teg; Swyddogion polisi dur; Swyddogion polisi bwyd; Swyddogion cyflawni caffael; Swyddogion polisi a deddfwriaeth caffael; Swyddogion polisi amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo yn y meysydd canlynol: datgarboneiddio net sero yr hinsawdd economi gylchol economi sylfaenol; Swyddogion polisi gwerth cymdeithasol a swyddogion polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

4. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

10. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

5. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

11. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4. Lle y caiff ei gymhwyso'n briodol, gallai fod effeithiau cadarnhaol os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo prentisiaethau neu'n annog datblygu a hyfforddi'r gweithlu o fewn eu caffaeliadau unigol. Gallai'r ysgogiadau hyn ddatblygu sgiliau'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf neu, yn achos y rhai sy'n gweithio, gallai wella eu sgiliau gwaith presennol. Gall fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ystyried yn briodol sut y gallai caffaeliadau unigol helpu i roi cyfleoedd i wahanol grwpiau oedran, fel peidio â chynnwys y potensial ar gyfer prentisiaethau neu i ddatblygu'r gweithlu.

6. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

12. Bydd y tîm polisi yn adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle bo angen.

ANABLEDD

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

13. Mae'r DPCC yn cyfeirio at gydraddoldeb, arferion gwaith diogel a chynhwysol, gwybodaeth hygyrch am dendrau, mynediad teg at gaffael a thrawsnewid digidol. Gallai'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol i weithwyr anabl, perchnogion busnesau, cyflenwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

14. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gall y DPCC ddileu, neu leihau, rhwystrau i bobl anabl. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

9. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

15. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

16. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a sicrhau bod Gwaith Teg yn thema drawsbynciol drwy'r DPCC.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

17. Gallai'r DPCC helpu i sicrhau bod cyflogaeth, cyfranogiad cyflenwyr a gwasanaethau yn fwy cynhwysol. Mae Gwaith Teg yn thema drawsbynciol yn y DPCC. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys sut y

gallant roi ysgogiadau caffael Gwaith Teg yn y DPCC ar waith, megis hyrwyddo cyflogaeth ddiogel a boddhaol, a chydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol yn eu contractau, gyda chyflenwyr yn cymhwyso hyn yn eu harferion gwaith.

12. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

18. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

HIL

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

19. Mae'r DPCC yn ceisio cefnogi gwaith teg, cydraddoldeb, cadwyni cyflenwi lleol, BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol. Gallai'r nodau hyn effeithio ar weithwyr, entrepreneuriaid, cyflenwyr a chymunedau o gefndiroedd ethnig gwahanol.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

20. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gall y DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig hil. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

15. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

21. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

22. Adolygodd Tîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru y DPCC er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau gwaith teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â hil yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

23. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried y ffordd y gall

caffael cyhoeddus hyrwyddo gwaith teg, megis drwy annog cydraddoldeb ac arferion gwaith diogel yn eu contractau. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Gallai hyn i leihau rhwystrau os caiff ei gymhwyso'n gyson gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn eu contractau a thrwy reoli contractau'n effeithiol.

17. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

24. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn. Bwriedir darparu deunyddiau ategol ychwanegol – llyfrgell adnoddau – er mwyn helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i roi'r DPCC ar waith. Gellid drafftio rhagor o ddeunydd ategol, yn dibynnu ar adborth Awdurdodau Contractio yng Nghymru, a fydd yn helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i hyrwyddo cydraddoldeb ac arferion gwaith teg o fewn prosesau a chontractau caffael cyhoeddus.

CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED

18. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

25. Mae'r DPCC yn cynnwys ymrwymiadau cyffredinol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gwaith teg a chyflogaeth gynhwysol, ond ni chyfeirir yn uniongyrchol at bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred a diffyg cred. Ar hyn o bryd, dim ond â rhanddeiliaid mewnol y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios y mae'r Tîm Polisi wedi ymgysylltu (mis Awst 2026) a dim ond adborth y rhanddeiliaid sydd wedi'i ystyried.

19. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

26. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred neu ddiffyg cred. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

20. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

27. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC effeithio ar bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred neu ddiffyg cred.

21. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

28. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

22. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

29. Gallai'r DPCC gael effeithiau cadarnhaol a negyddol, er y byddent yn anuniongyrchol, yn dibynnu ar y ffordd y bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn rhoi'r ysgogiadau caffael yn y datganiad ar waith. Gallai fod effaith gadarnhaol drwy Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo cyflogaeth ddiogel a boddhaol a hyrwyddo arferion dim gwahaniaethu drwy gefnogi cydraddoldeb, ac annog arferion diogel a chynhwysol sy'n cyfrannu at lesiant a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Gallai fod effeithiau negyddol os na chaiff cydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol eu hyrwyddo. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4.

23. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

30. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

RHYW

24. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

31. Mae'r DPCC yn cynnwys gwaith teg, datblygu'r gweithlu, cydraddoldeb, arferion gwaith diogel, swyddi a sgiliau, a gweithgarwch mewn sectorau â phroffiliau gweithlu gwahanol. Gallai'r darpariaethau hyn effeithio ar fenywod a dynion mewn ffyrdd gwahanol.

25. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

32. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau.

26. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

33. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir

effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

27. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

34. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol, gan ddiwygio'r DPCC lle y bo'n briodol. Ni chafwyd unrhyw adborth mewn perthynas â'r ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig rhyw.

28. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

35. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ym mha ffordd y gallant roi'r ysgogiadau caffael Gwaith Teg yn y DPCC ar waith. Gellid hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau cyflogaeth ddiogel a boddhaol a rhoi arferion cyflogaeth diogel a chynhwysol ar waith yn gyson, gydag Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn annog mynediad teg a chyfartal at hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu.

29. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

36. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

AILBENNU RHYWEDD

30. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

37. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n benodol at ailbennu rhywedd, ond mae'n cyfeirio at gydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol. Gallai'r ymrwymiadau hyn fod yn berthnasol i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael.

31. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

38. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnig cyfle i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, lle y gall Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

32. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

39. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd.

33. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

40. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol, ystyriodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd, a, lle roedd yn briodol, diwygiwyd y DPCC.

34. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

41. Er bod yr effeithiau'n debygol o fod yn rhai anuniongyrchol, gallai fod effeithiau cadarnhaol. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y caiff arferion gwaith teg ac arferion gwaith cynhwysol eu hystyried a sicrhau bod cyflenwyr wedi dilyn polisïau ac arferion gwaith teg perthnasol. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

35. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

42. Gellid defnyddio Adroddiad Blynyddol Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, lle bo'n berthnasol, i ddangos sut mae gweithgarwch caffael wedi cyfrannu at waith teg a llesiant. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL

36. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

43. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at gyfeiriadedd rhywiol, ond mae'n cyfeirio at gydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol, a allai effeithio ar bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd.

37. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

44. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol am y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

38. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

45. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol.

39. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

46. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio.

40. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

47. Er bod yr effeithiau'n debygol o fod yn rhai anuniongyrchol, gallai'r cynnig leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Mae'r DPCC yn hyrwyddo arferion gwaith diogel a chynhwysol, cydraddoldeb a chyflogaeth ddiogel a boddhaol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ym mha ffordd y gallant roi'r ysgogiadau caffael Gwaith Teg hyn ar waith yn eu caffaeliadau cyhoeddus. Gallai fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo egwyddorion gwaith teg yn eu caffaeliadau, manylebau contractau a rheoli contractau.

41. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

48. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

42. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

49. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at feichiogrwydd na mamolaeth. Fodd bynnag, gallai'r ymrwymiadau yn y DPCC ynglŷn â gwaith teg, cydraddoldeb, cyflogaeth ddiogel a boddhaol, datblygu'r gweithlu ac arferion gwaith diogel fod yn berthnasol i weithwyr beichiog a'r rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth neu'n dychwelyd ohono. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael.

43. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

50. Nid oes tystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gallai'r DPCC leihau neu ddileu rhwystrau i fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

44. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

51. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau

penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth.

45. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

52. Adolygodd Tîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru y DPCC er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau gwaith teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu famolaeth yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

46. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

53. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ystyried y ffordd y gallant gymhwyso (a monitro) yr ymrwymiadau gwaith teg yn y DPCC. Gallai'r DPCC helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y gweithle lle y caiff yr egwyddorion gwaith teg hyn eu cymhwyso a'u monitro. Gallai fod effeithiau negyddol os caiff egwyddorion gwaith teg eu cymhwyso'n anghyson o fewn contractau.

47. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

54. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

48. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

55. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at briodas na phartneriaeth sifil. Fodd bynnag, mae'r DPCC yn cynnwys ymrwymiadau ynglŷn â gwaith teg a chydraddoldeb, sydd â'r nod o leihau neu ddileu gwahaniaethu yn y gwaith. Gall hyn fod yn berthnasol i ddileu neu leihau rhwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

49. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

56. Mae'r DPCC yn hyrwyddo egwyddorion gwaith teg. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y bydd y DPCC yn dileu neu'n lleihau rhwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

50. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

57. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â phriodas na phartneriaeth sifil yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

51. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

58. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni chafwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r ffordd y byddai'r ysgogiadau caffael a amlinellwyd sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gwaith neu mewn cyflogaeth yn berthnasol i leihau neu ddileu rhwystrau i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

52. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

59. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried y ffordd y gall caffael cyhoeddus hyrwyddo gwaith teg, er enghraifft, drwy gefnogi cyflogaeth ddiogel a boddhaol, cydraddoldeb, llais gweithwyr ac arferion gwaith diogel a chynhwysol. os cânt eu cymhwyso'n gyson a'u monitro, gallai'r rhain leihau gwahaniaethu a lleihau neu ddileu'n anuniongyrchol rwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil. Gallai effeithiau negyddol ddeillio o gymhwyso egwyddorion gwaith teg yn anghyson ar draws caffaeliadau a rheoli/monitro contractau mewn ffordd anghyson. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

53. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

60. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad hwn Effaith Cydraddoldeb yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

Nac Ydy

2. Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, esboniwch pam.

61. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dal i fynd rhagddo. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a'r Asesiad Effaith Integredig a chyflwyno sylwadau ar y ddwy ddogfen. Caiff adborth o'r ymgynghoriad hwn ei adolygu ac, os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith

Cydraddoldeb ei ddiweddaru. Darperir yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel dogfen ategol pan osodir y DPCC gerbron y Senedd ar ddechrau 2027. Bwriedir cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Integredig yn dilyn y broses hon.

3. A yw'r Asesiad hwn Effaith Cydraddoldeb hwn yn ddiweddariad o fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?

Nac Ydy

4. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd o ran y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

62. Dylai'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb barhau i gael ei adolygu wrth i'r DPCC, y canllawiau ategol a'r trefniadau gweithredu ddatblygu. Dylai gweithgarwch monitro fod yn gymesur â'r risgiau perthnasol a nodwyd ac ni ddylai ymrwymo i gasglu data nad ydynt ar gael, data annibynadwy na data anghymesur.

2. Asesiad Effaith Hawliau Plant

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

1. Amcanion polisi

- **Beth yw'r cynnig rydych yn asesu ei effaith?**

2. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.
3. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.
4. Mae'n rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac nid yw wedi'i anelu'n benodol at blant, ond gallai gweithgarwch caffael y mae'r DPCC yn dylanwadu arno effeithio ar nwyddau, gwasanaethau a gweithiau a ddefnyddir gan blant a theuluoedd, gan gynnwys ysgolion, ysbytai, trafnidiaeth, tai, gofal, gwasanaethau digidol a seilwaith cymunedol. Gallai gweithgarwch caffael a gynhelir gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddylanwadu ar wasanaethau a seilwaith a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg, iechyd, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau digidol a chyfleusterau cymunedol. Mae'r DPCC yn cynnwys blaenoriaethau sy'n ymwneud â swyddi a sgiliau, gwaith teg, cymunedau cryfach, creu cyfoeth cymunedol, cynaliadwyedd a chanlyniadau llesiant ehangach.
5. Mae p'un a fydd yr effeithiau'n gadarnhaol neu'n negyddol yn dibynnu ar y ffordd y caiff ysgogiadau caffael yn y DPCC eu rhoi ar waith gan Awdurdodau Contractio unigol yng Nghymru mewn caffaeliadau unigol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1. Gallai fod cyfleoedd cadarnhaol drwy gynigion sy'n ymwneud â phrentisiaethau ac sy'n helpu i ddatblygu'r gweithlu a allai effeithio ar bobl iau sy'n ymuno â'r byd gwaith am y tro cyntaf.
6. Gallai fod effeithiau negyddol os na roddir digon o ystyriaeth i'r ffordd y mae caffaeliadau unigol sy'n effeithio ar blant – er enghraifft, er eu bod yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer ysgolion, trafnidiaeth, tai – yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc.
7. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a'r Asesiad Effaith Integredig a chyflwyno sylwadau ar y ddwy ddogfen. Caiff

adborth o'r ymgynghoriad hwn ei adolygu ac, os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Hawliau Plant drafft ei ddiweddaru. Darperir yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Hawliau Plant fel dogfen ategol pan osodir y DPCC gerbron y Senedd ar ddechrau 2027. Bwriedir cyhoeddi'r Asesiad Effaith Hawliau Plant a'r Asesiad Effaith Integredig yn dilyn y broses hon.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol?
- Gan ddefnyddio'r ymchwil hon, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?
- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.

Ymateb

8. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Hawliau Plant drafft ei ddiweddaru.
9. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn gymesur tra roedd yn cael ei ddatblygu. Disgwylir effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc o ymarferion caffael unigol yn hytrach nag o'r datganiad ei hun. Os bydd gweithgarwch caffael yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried sut y gellir rhoi sylw priodol i farn a buddiannau plant.
10. Mae effeithiau cadarnhaol posibl yn rhai anuniongyrchol a gallent ddeillio o wasanaethau cyhoeddus gwell, cymunedau cryfach, mwy o ddiogelwch economaidd i deuluoedd, gwell cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau a chanlyniadau llesiant ehangach. Mae risgiau posibl yn cynnwys gweithredu anghyson rhwng Awdurdodau Contractio yng Nghymru neu sefyllfaoedd lle na roddir ystyriaeth ddigonol i anghenion plant yn ystod ymarferion caffael unigol. Gan nad yw'r DPCC yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau, bydd yr effeithiau'n dibynnu ar y ffordd y caiff yr ysgogiadau caffael yn y DPCC eu cymhwyso mewn caffaeliadau unigol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau a gymerir gennych i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Nodwch bob erthygl berthnasol sy'n gymwys i'ch polisi ac esboniwch sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio'r hawl honno. Lle mae effaith negyddol bosibl wedi'i nodi, esboniwch unrhyw gamau lliniaru a gymerir.

Ymateb

11. Bydd effeithiau'n dibynnu ar y ffordd y caiff ysgogiadau caffael yn y DPCC eu cymhwyso mewn caffaeliadau unigol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1. Gallai'r DPCC gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Drwy gefnogi gwaith teg, swyddi a sgiliau, prentisiaethau, creu cyfoeth cymunedol, cynaliadwyedd a gwasanaethau cyhoeddus gwell, gallai'r polisi gyfrannu at amodau sy'n cefnogi llesiant a datblygiad plant.
12. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol uniongyrchol ar blant na phobl ifanc. Disgwylir i effeithiau posibl ddeillio o weithgareddau caffael unigol a gynhelir gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru. Mae risg na chaiff canlyniadau cadarnhaol eu gwireddu'n gyson os na chaiff anghenion plant eu hystyried yn briodol wrth gynllunio a chyflawni ymarferion caffael, a fydd yn cael effeithiau negyddol o bosibl. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd unrhyw effeithiau negyddol os caiff risg ei lliniaru drwy roi ystyriaeth gymesur i'r anghenion hynny wrth ymgymryd â chaffaeliadau perthnasol.

13. Ystyriwyd bod yr erthyglau canlynol yn berthnasol:

Erthygl 2, dim gwahaniaethu

14. Mae'r DPCC yn hyrwyddo prentisiaethau lle y bo'n briodol, a allai effeithio ar bobl ifanc sy'n ddigon hen i weithio.

Erthygl 3, lles pennaf

15. Ar gyfer caffaeliadau sy'n effeithio ar blant, (er enghraifft, rhai sy'n ymwneud ag ysgolion e.e. gwasanaethau arlwyo mewn ysgolion), Awdurdodau Contractio yng Nghymru fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod lles pennaf plant yn cael ei ystyried a'i ymgorffori yneu prosesau caffael a'u prosesau cyflawni a monitro contractau. Gallai fod effaith gadarnhaol os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn cymhwyso'r cyfleoedd perthnasol yn y DPCC, megis sut y gall eu caffaeliadau fod o fudd i greu cyfoeth cymunedol, gwella llesiant cymdeithasol a diwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd yn Gymraeg.

Erthygl 6, bywyd, goroesi a datblygu

16. Ar gyfer caffaeliadau sy'n effeithio ar blant, (er enghraifft gweithgarwch caffael sy'n ymwneud ag ysgolion, cyfleusterau gofal i blant a phobl ifanc, neu brentisiaethau sydd â'r nod o roi sgiliau i bobl ifanc sy'n awyddus i ymuno â'r gweithlu, ymhlith pethau eraill), rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys sut y byddai'r mesurau yn y DPCC yn effeithio ar fywyd, goroesiad a datblygiad y plentyn. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng

Nghymru yn gryf i ystyried y mesurau hyn hefyd. Mae'r DPCC yn hyrwyddo egwyddorion fel telerau gwaith teg trwy gyflogaeth ddiogel, datblygu'r gweithlu a phrentisiaethau, yn ogystal â hyrwyddo cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol. Gallai fod effeithiau cadarnhaol, lle gall pobl ifanc feithrin sgiliau drwy brentisiaethau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Gallai gweithgarwch caffael cynaliadwy wella'r amgylchedd, a fyddai'n cael effaith anuniongyrchol ar fywydau plant a phobl ifanc, drwy sicrhau amgylchedd naturiol iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Erthygl 12, barn y plentyn

17. Mae'r DPCC yn cefnogi ymgysylltu cyn y farchnad. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, gan gynnwys ystyried sut y gallant ddefnyddio gweithgarwch ymgysylltu cyn y farchnad, lle y bo'n briodol, i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc pe byddai'r gwasanaethau sydd i'w darparu gan eu caffaeliad yn effeithio arnynt. Gallai hyn feithrin effaith gadarnhaol gyda manylebau caffaeliadau/contractau yn mynd i'r afael â phryderon a godir gan blant, ac yn amlinellu dulliau o ymgysylltu â phlant unwaith y bydd y contract ar waith, er mwyn monitro a yw'r contract yn cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

Erthygl 24, iechyd

18. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, ac er nad yw'r DPCC yn cwmpasu gwasanaethau iechyd, mae'n cynnwys yr ymrwymiad i ystyried llesiant iechyd Cymru ac yn atgoffa Awdurdodau Contractio yng Nghymru o'u dyletswydd (os ydynt o fewn y cwmpas) o dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

Erthygl 28 a 29, addysg

19. Nid yw'r DPCC yn cefnogi addysg plant yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n hyrwyddo egwyddorion gwaith teg sy'n cefnogi datblygu'r gweithlu, buddsoddi mewn sgiliau lleol a chyfleoedd i gamu ymlaen. Mae'r DPCC hefyd yn cefnogi'r defnydd o brentisiaethau drwy gaffael cyhoeddus lle y bo'n briodol ac yn gymesur. Gall hyn gyfrannu at effaith gadarnhaol ar blant sy'n ymuno â'r gweithlu.

Erthygl 30, iaith a diwylliant ac Erthygl 31, hamdden, chwarae a gweithgareddau diwylliannol

20. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad eu bod yn deall sut mae gwariant cyhoeddus yn cyfrannu at lesiant diwylliannol a'r Gymraeg. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Ar gyfer caffaeliadau priodol, gallai hyn effeithio ar blant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith neu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle gallai manylebau contractau gyflwyno mesurau i'w helpu i fynegi eu hunain yn Gymraeg a dysgu'r iaith ac am ddiwylliant

Cymru. Byddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn dibynnu ar ba mor dda y mae Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn deall anghenion plant, a pha mor llwyddiannus y maent yn monitro'r ffordd y caiff contractau eu cyflawni yn erbyn y canlyniadau a ddymunir.

21. Cyhoeddir yr Asesiad Effaith Hawliau Plant terfynol ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig terfynol a'r DPCC, yn unol â gofynion asesiad effaith Llywodraeth Cymru.

4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- **Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut y byddwch yn eu hysbysu am y canlyniad?**

22. Dd/G

5. Monitro ac Adolygu

Am fod prosesau gweithredu yn cael eu cynnal drwy gaffaeliadau unigol gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru, bydd unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc yn dibynnu ar y ffordd y caiff y DPCC ei gymhwyso'n ymarferol. Y bwriad yw adolygu'r DPCC yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gaffael a'r polisi caffael presennol. Wrth adolygu'r DPCC, bydd Polisi Caffael yn ystyried sut mae gweithredu'r DPCC wedi effeithio ar blant a phobl ifanc mewn contractau caffael perthnasol ac, os oes angen, bydd yn diweddaru'r Asesiad Effaith Hawliau Plant yn unol â hynny. Mae'n debygol y bydd adolygiad o'r fath yn cynnwys arolygon / holiaduron i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, adolygu arferion rheoli contractau a monitro dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir mewn contractau drwy hysbysiadau tendro caffael sydd ar gael (megis yr 'hysbysiad cyflawni contract'). Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r DPCC yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad pellach.

3. Asesiad Effaith Iechyd

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Templed Asesiad Effaith Iechyd

Enw'r penderfyniad:

2. Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

Diben /nod y penderfyniad:

3. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

4. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

5. Mae'r DPCC yn canolbwyntio ar gryfhau economi Cymru ac yn pennu disgwyliadau trawsbynciol sy'n ymwneud â gwaith teg, cadwyni cyflenwi cynaliadwy a gwydn, llesiant cymunedol, y Gymraeg, llai o anghydraddoldebau a chanlyniadau iechyd a lles gwell. Bydd unrhyw effeithiau ar iechyd yn dibynnu ar y ffordd y caiff yr ysgogiadau caffael yn y DPCC eu cymhwyso mewn caffaeliadau unigol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1.

ADRAN A – Cwblhau Asesiad Effaith Iechyd

Y Grŵp/Grwpiau o'r Boblogaeth y bydd y penderfyniad / polisi yn effeithio arno/arnynt

- Pa wybodaeth sydd gennych chi am y grŵp/grwpiau o'r boblogaeth y credir yn rhesymol y gallai'r penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu feddyliol?

Ymateb

6. Mae'r DPCC yn ddatganiad caffael strategol a allai gael effaith anuniongyrchol ar bobl yng Nghymru drwy ei ddylanwad ar waith cynllunio caffael, cyfranogiad cyflenwyr, arferion cyflogaeth, canlyniadau amgylcheddol ac ansawdd, hygyrchedd a pharhad

nwyddau, gwasanaethau a gwaith a gaffaelir yn gyhoeddus. Bydd natur a maint unrhyw effeithiau ar iechyd yn dibynnu ar y ffordd y mae Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn cymhwyso'r DPCC drwy ymarferion caffael unigol a threfniadau rheoli contractau. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1.

7. Mae'r grwpiau y gellid effeithio arnynt yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl o oedran gweithio, pobl hŷn, pobl anabl, pobl â nodweddion gwarchodedig eraill, pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, cymunedau gwledig ac anghysbell, cymunedau Cymraeg, gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus, busnesau bach a chanolig (BBaChau), mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a gofalwyr di-dâl. Gall effeithiau amrywio yn ôl lleoliad lle mae gwahaniaethau yng nghapasiti marchnadoedd, seilwaith trafnidiaeth, cysylltedd digidol, argaeledd gweithlu neu fynediad at wasanaethau

8. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar iechyd.

Nodi ac asesu effeithiau ar iechyd

- A fwriedir i'r penderfyniad gael unrhyw effeithiau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y grŵp/grwpiau a nodwyd?

- A fwriedir i'r penderfyniad gael unrhyw effeithiau yr ystyrir yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y grŵp/grwpiau a nodwyd?

- A ydych wedi rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

  - **Penderfynyddion ehangach iechyd**: mae hyn yn golygu'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a allai effeithio ar iechyd pobl)?
  - **Ffactorau tegwch iechyd:** mae hyn yn golygu unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd (h.y. cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd a allai hyrwyddo neu wella iechyd corfforol neu iechyd meddwl) a achosir gan unrhyw sail, gan gynnwys:
    (i) statws economaidd-gymdeithasol,
    (ii) lleoliad daearyddol
    (iii) presenoldeb nodwedd warchodedig o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Ystyriwch yr effeithiau **byrdymor a hirdymor** yn unol â'r pum ffordd o weithio (Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor, Atal).

Ymateb

9. Nid yw'r DPCC yn ymyriad iechyd yn bennaf ac nid yw'n penderfynu'n uniongyrchol sut y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu. Mae'n debygol y bydd unrhyw effeithiau ar iechyd yn rhai anuniongyrchol. Byddent yn codi'n bennaf drwy ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, megis gwaith teg, diogelwch incwm, sgiliau, gwasanaethau gwydn, caffael cynaliadwy, llesiant cymunedol ac economïau lleol cryfach.

10. Gall effeithiau cadarnhaol godi os bydd gweithgarwch caffael yn cefnogi gweithleoedd diogel a chynhwysol, swyddi o ansawdd da, prentisiaethau, cadwyni cyflenwi cryfach, gwasanaethau hygyrch, gwelliannau amgylcheddol a manteision cymunedol. Fodd bynnag, bwriadau polisi yw'r rhain yn hytrach nag effeithiau wedi'u gwarantu a byddant yn dibynnu ar y ffordd y bydd caffaeliadau unigol yn pennu gofynion perthnasol, cyfreithlon, cymesur a mesuradwy, a pha mor dda y caiff y gofynion hynny eu rheoli drwy gontractau.

11. Mae effeithiau anfwriadol posibl yn cynnwys rhoi gormod o bwysau ar ddarparwyr llai o faint neu ddarparwyr cymunedol, lleihau amrywiaeth cyflenwyr, cynyddu crynodiad y farchnad, methiant cyflenwyr, paratoi gwael, prosesau digidol anhygyrch neu fuddion nad ydynt yn cyrraedd y cymunedau y mae anfantis yn effeithio arnynt fwyaf.

Tystiolaeth ac ymgysylltu

- Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd? (e.e. ymchwil, data, asesiadau blaenorol)
- Ystyriwch unrhyw dystiolaeth a gafwyd o ymgysylltu/ymwneud â'r grŵp perthnasol o'r boblogaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio.

Ymateb

12. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y DPCC drafft, Maniffesto Plaid Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu.

13. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn nodi y gallai'r DPCC effeithio ar iechyd yn anuniongyrchol, drwy waith teg, cyflogaeth a sgiliau, creu cyfoeth cymunedol, caffael cynaliadwy, gwasanaethau cyhoeddus hygyrch a gwydn, adrodd gan gyflenwyr a rheoli contractau.

14. Mae'r gwaith o ddatblygu'r DPCC a'r Asesiad Effaith Integredig hefyd wedi'i lywio gan weithgarwch ymgysylltu mewnol ynghylch polisi (Awst 2026). Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn gan feysydd megis swyddogion polisi iechyd a gofal cymdeithasol, swyddogion gwaith teg, swyddogion polisi economi sylfaenol a swyddogion polisi gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol.

15. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Iechyd ei ddiweddaru.

Lliniaru a gwella

- Pa gamau gweithredu y gellid eu hystyried yn rhesymol er mwyn **atal**, **lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol**?
- Pa gamau gweithredu y gellid eu hystyried yn rhesymol er mwyn cynyddu **unrhyw effeithiau cadarnhaol**?

Ymateb

16. Mae camau gweithredu i atal neu leihau effeithiau negyddol yn cynnwys:
    - cadarnhau drwy ymgynghoriad cyhoeddus fod y DPCC drafft yn glir, yn ymarferol ac yn gymesur.
    - darparu canllawiau hygyrch, deunyddiau dysgu, adnoddau ac enghreifftiau

- ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar ac mewn ffordd gymesur;
- gwneud yn siŵr bod gofynion contract, fel rhannu'n lotiau, gwiriadau ariannol, yswiriant, achredu a thystiolaeth, yn briodol ar gyfer y caffaeliad.

17. Mae camau gweithredu i gynyddu effeithiau cadarnhaol yn cynnwys:
    - ymgorffori gwaith teg, cyflogaeth ddiogel a chynhwysol, swyddi, sgiliau a phrentisiaethau mewn caffaeliadau perthnasol;
    - cymhwyso ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, cost oes gyfan, lleihau carbon a'r economi gylchol; defnyddio manylebau ac arloesedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
    - dewis Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cymru perthnasol; a rhannu arferion effeithiol.

18. Dylid cymhwyso'r mesurau hyn yn gyfreithlon, yn gymesur ac mewn ffordd sy'n diogelu ansawdd gwasanaethau, gwerth am arian a chystadleuaeth deg.

19. Dylai trefniadau monitro a gweithredu wahaniaethu rhwng allbynnau polisi, canlyniadau canolradd ac unrhyw ganlyniadau iechyd tymor hwy. Dylent hefyd nodi perchnogaeth, ffynonellau data a phwyntiau adolygu, gan gynnwys lle mae tystiolaeth o weithgarwch ymgynghori neu weithredu yn dangos effeithiau anghyson rhwng grwpiau neu leoedd.

Effeithiau iechyd cyffredinol

- Effaith ddisgwyliedig gyffredinol y penderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ar ôl cymryd camau lliniaru / gwella: Cadarnhaol
- Yr effaith ddisgwyliedig gyffredinol ar anghydraddoldebau iechyd: Aneglur

Ymateb

20. Yn gyffredinol, bwriedir i'r DPCC gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd unrhyw effeithiau ar iechyd yn rhai anuniongyrchol a bydd yr effaith yn dibynnu ar ba mor dda y caiff y PDCC ei roi ar waith. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1.

21. Gallai'r DPCC helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi canlyniadau iechyd gwell drwy annog gwaith teg a diogel, swyddi a sgiliau, economïau a chadwyni cyflenwi lleol cryfach, caffael cynaliadwy, buddion cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus gwell. Bydd maint yr effaith yn dibynnu ar y ffordd mae Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn cymhwyso'r ysgogiadau caffael hyn at gaffaeliadau perthnasol, lle y bo'n briodol i'r contract ac yn gymesur ag ef.

22. Gallai buddion gael eu lleihau neu gallai anghydraddoldebau gynyddu, os na chaiff y DPCC ei gymhwyso'n gyson nac yn gymesur. Gallai hyn ddigwydd os bydd yn anodd cael mynediad at brosesau caffael, os caiff gwasanaethau lleol eu gwanhau neu os na fydd buddion yn cyrraedd y cymunedau sy'n wynebu'r anfantais fwyaf.

Y dylanwad ar brosesau gwneud penderfyniadau

- Sut mae'r Asesiad Effaith Iechyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i hynny?
- Pa risgiau/effeithiau negyddol sy'n parhau?

Ymateb

23. Mae'r HIA wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried iechyd fel rhan o'r DPCC, yn hytrach nag fel mater ar wahân. Y rheswm dros hyn yw y gallai'r DPCC effeithio ar y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd pobl drwy bolisi ac arferion caffael. Mae'r asesiad o blaid cadw cyfeiriadau clir at iechyd a lles, lleihau anghydraddoldebau, gwaith teg, arferion diogel a chynhwysol, cynaliadwyedd, canlyniadau gwasanaeth a buddion cymunedol.

24. Nid oes unrhyw effaith negyddol uniongyrchol sylweddol ar iechyd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Y prif risgiau yw y gallai'r DPCC gael ei gymhwyso'n anghyson neu'r posibilrwydd na fydd y buddion yn cyrraedd y cymunedau sy'n wynebu'r anfantais fwyaf.

Monitro ac adolygu parhaus

- Sut y caiff effeithiau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl eu monitro?
- A oes unrhyw ddangosyddion neu ffynonellau data wedi'u nodi?
- A oes angen cynnal adolygiad pellach?

Ymateb

25. Bydd gweithgarwch monitro yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y mecanweithiau a'r risgiau a nodwyd drwy'r Asesiad Effaith Iechyd. Bydd yn cyd-fynd â'r broses o roi'r DPCC ar waith, adrodd ar weithgarwch caffael a threfniadau rheoli contractau.

26. Gallai tystiolaeth berthnasol gynnwys ymrwymiadau o ran gwaith a chyflogaeth deg, swyddi, sgiliau, prentisiaethau a hyfforddiant, cyfranogiad BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, gofynion hygyrchedd, mesurau cynaliadwyedd, cyflawni contractau, parhad gwasanaeth, cwynion, methiant contractau a chamau cywirol.

27. Gallai hefyd gynnwys data Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cymru ac Adroddiadau Blynyddol ar Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol. Dylid trin y rhain fel dangosyddion gweithredu, yn hytrach na mesurau uniongyrchol o'r effaith ar iechyd.

28. Os bydd cysylltiad credadwy rhwng caffaeliad a chanlyniadau iechyd, gallai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio adborth cymesur gan ddefnyddwyr gwasanaeth, y gweithlu neu gyflenwyr. Gallant hefyd ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb, canfyddiadau o ran hygyrchedd a chanlyniadau gwasanaeth perthnasol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Iechyd ei ddiweddaru.

4. Asesiad Effaith y Gymraeg

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

2.

3. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? –*Cymraeg 2050* a'r *Rhaglen Waith* gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?

Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

1. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

2. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

3. Mae'r DPCC yn amlinellu'r ffordd y gall caffael cyhoeddus gefnogi hyn drwy gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach, helpu busnesau yng Nghymru a chreu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol. Mae'n cefnogi cymhwyso egwyddorion gwaith teg gyda chynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol.

4. Mae'r DPCC yn dangos cysylltiad â Cymraeg 2050 yn “Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun”. Ystyrir bod y Gymraeg yn ymrwymiad trawsbynciol yn y DPCC. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC,

gan gynnwys sut y gallant ddefnyddio caffael cyhoeddus i hyrwyddo'r Gymraeg ynghyd â chryfhau cymunedau Cymraeg a cheisio gwella llesiant cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

5. Gallai'r DPCC gael effaith ffafriol ar y Gymraeg. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys ystyried sut y gellid defnyddio ysgogiadau caffael i gryfhau cymunedau Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Er enghraifft, drwy brentisiaethau dwyieithog, neu drwy roi mesurau ar waith i leihau neu ddileu'r rhwystrau i BBaChau yng Nghymru gymryd rhan mewn caffaeliadau cyhoeddus, (megis defnyddio strategaethau rhannu'n lotiau a gofynion cymesur i wella hygyrchedd i BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol).

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol). Dylech gynnwys eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn a darparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg**[1] **(effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

6. Disgwylir i'r DPCC gael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg, gan fod yn rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y datganiad, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried sut y gall caffael cyhoeddus gryfhau cymunedau Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Mae'r ysgogiadau caffael a ddarperir o dan yr adran 'Fframwaith Cyflawni' yn y DPCC yn cynnig cyfleoedd lle y gellir defnyddio'r Gymraeg: er enghraifft, drwy brentisiaethau dwyieithog, neu leihau rhwystrau i fusnesau a BBaChau yng Nghymru dendro am gaffaeliadau cyhoeddus.

7. Bydd maint yr effaith yn dibynnu ar y ffordd y caiff yr ysgogiadau caffael yn y DPCC eu cymhwyso at gaffaeliadau unigol er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg neu hyrwyddo'r Gymraeg. Gallai hyn arwain at rywfaint o anghysondeb o ran y ffordd y caiff y DPCC ei gymhwyso yn y maes hwn. Un mesur lliniaru posibl, (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd), yw darparu deunyddiau ategol ar gyfer y DPCC a gaiff eu cyhoeddi ochr

[1] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, yn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol ac yn gymunedau rhithwir sy'n rhychwantu lleoedd daearyddol.

yn ochr â'r datganiad, a allai roi enghreifftiau o'r ffordd y gallai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r gwahanol ysgogiadau caffael yn y DPCC er mwyn cryfhau a hyrwyddo'r Gymraeg.

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

8. Ni ddisgwylir i'r DPCC gael effaith gadarnhaol nac andwyol uniongyrchol ar addysg cyfrwng Cymraeg na dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion. Mae cysylltiad anuniongyrchol o fewn y datganiad, drwy'r disgwyliad y gellir defnyddio gweithgarwch caffael i hyrwyddo'r Gymraeg, cryfhau cymunedau Cymraeg a helpu i gyflawni nodau llesiant ehangach o dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

9. Nid yw'r DPCC yn ymdrin yn benodol ag addysg cyfrwng Cymraeg na chyfleoedd i ddysgu'r iaith. Fodd bynnag, gallai caffaeliadau cyhoeddus unigol a gynhelir gan ddefnyddio'r DPCC effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfleoedd i ddysgu'r iaith ar gyfer dysgwyr Cymraeg o bob oedran, os bydd y caffaeliad yn ymwneud ag addysg, cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg neu ofynion dwyieithog ar gyfer caffaeliadau a gofynion o ran cyflawni contractau. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, a chan gyfeirio hefyd at ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau[2] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

10. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried sut y gall caffael cyhoeddus wella llesiant cymdeithasol a diwylliannol Cymru, cryfhau Cymraeg lle y bo'n berthnasol a chefnogi defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

11. Byddai'r effaith yn dibynnu ar gaffaeliadau unigol, gydag Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn gyfrifol am ddeall eu rhwymedigaethau statudol wrth lunio a chyflawni eu caffaeliadau.

[2] Nod strategaeth *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg a gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

- **Sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at gynaliadwyedd a ffyniant y Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uchel?**

12. Bydd y cyfraniad yn dibynnu ar y ffordd y caiff contractau unigol eu cyflawni yn yr ardaloedd hyn. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, a defnyddio caffael cyhoeddus fel ysgogiad i gryfhau economi Cymru, gyda disgwyliad trawsbynciol y caiff cymunedau yng Nghymru eu cryfhau ac y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo.

13. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried yr ysgogiadau caffael yn y DPCC a sut y gellir eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gyflawni'r disgwyliad trawsbynciol y caiff gweithgarwch caffael ei ddefnyddio i gryfhau cymunedau Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a'r gymuned Gymraeg. Er enghraifft, drwy gynnig prentisiaethau, darparu hyfforddiant a datblygu'r gweithlu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu drwy roi mesurau ar waith i leihau neu ddileu'r rhwystrau i BBaChau yng Nghymru gymryd rhan mewn caffaeliadau cyhoeddus, (megis defnyddio strategaethau rhannu'n lotiau a gofynion cymesur i wella hygyrchedd i BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol.

14. Un o'r ysgogiadau caffael sydd ar gael yn y DPCC yw "Dangos sut mae gwariant cyhoeddus yn cyfrannu at gymunedau cryfach, llesiant diwylliannol, y Gymraeg a chanlyniadau gwell i Gymru". Mae'r DPCC yn hyrwyddo'r defnydd o 'system Themâu, Canlyniadau a Mesurau' (TOMS) Cymru, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu yn Llywodraeth Cymru, ar y cam cynllunio, er mwyn helpu i ddewis mesurau perthnasol a chymesur sy'n diffinio'r gwerth cymdeithasol a'r buddion cymunedol a ddisgwylir gan y contract. Felly, mae cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio TOMS i'w helpu i nodi sut y gallant feithrin llesiant diwylliannol yng Nghymru drwy eu gweithgarwch caffael cyhoeddus a chyfrannu at dwf a chynaliadwyedd y Gymraeg.

- **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu eu defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gennych i lywio'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant Cymraeg?**

15. Mae deddfwriaeth gaffael – yn benodol Deddf Gaffael 2023 – yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn ei chwmpas hysbysebu eu caffaeliadau drwy ddefnyddio'r hysbysiadau caffael perthnasol ar blatfform digidol Cymru (GwerthwchiGymru) a'r Platfform Digidol Canolog (platfform digidol Llywodraeth y DU).

16. Ar hyn o bryd, dim ond â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios y mae'r Tîm Polisi wedi ymgysylltu (mis Awst 2026). Roedd hyn yn cynnwys: Tîm Gwaith Teg; Swyddogion polisi dur; Swyddogion polisi bwyd; Swyddogion cyflawni caffael; Swyddogion polisi a deddfwriaeth caffael; Swyddogion polisi amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo yn y meysydd canlynol: datgarboneiddio net sero yr hinsawdd economi gylchol economi sylfaenol; Swyddogion polisi gwerth cymdeithasol a swyddogion polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

17. Y bwriad yw ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, a gychwynnir drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC, lle gall cyflenwyr, Awdurdodau Contractio yng Nghymru ac aelodau'r cyhoedd fwrw golwg dros y fersiwn ddrafft o'r DPCC a chyflwyno sylwadau. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys cwestiynau ynghylch effaith bosibl y DPCC ar gymunedau yng Nghymru, a sut y gallai'r DPCC effeithio ar y Gymraeg.

- **Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal gwell asesiad?**

18. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnwys cwestiynau ar effaith bosibl y DPCC ar gymunedau yng Nghymru, a sut y gallai'r DPCC effeithio ar y Gymraeg. Caiff tystiolaeth o'r ymgynghoriad hwn ei chasglu a'i defnyddio i nodi sut y gellir gwella'r DPCC i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd, yn ogystal ag atgyfnerthu unrhyw elfennau cadarnhaol a nodwyd.

- **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

19. Mae'r DPCC yn darparu ysgogiadau caffael er mwyn i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddangos sut mae eu gwariant cyhoeddus yn cyfrannu at gymunedau cryfach, llesiant diwylliannol, y Gymraeg a chanlyniadau gwell i Gymru. Anogir defnyddio system Themâu, Canlyniadau a Mesurau' (TOMS), sy'n galluogi Awdurdodau Contractio yng Nghymru i ddewis mesurau perthnasol a chymesur sy'n diffinio'r gwerth cymdeithasol a'r buddion cymunedol a ddisgwylir gan y contract. Gellir ychwanegu mesurau at fanylebau, meini prawf dyfarnu, amodau contract a threfniadau rheoli contractau lle y bo'n gyfreithlon, yn berthnasol ac yn gymesur). Mae'r DPCC hefyd yn hyrwyddo ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr (fel rhan o'r broses o gyflawni contractau) sicrhau y caiff TOMS ei fonitro'n rheolaidd er mwyn nodi a yw ymrwymiadau o ran gwerth cymdeithasol yn cael eu cyflawni. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i fesur a yw gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu cyflawni.

20. Gallai caffaeliadau hefyd gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) fel rhan o'r gwaith o reoli contractau er mwyn sicrhau bod gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu bodloni i'r safon ofynnol. Gellir defnyddio prosesau adrodd ar gontractau manylach i fonitro llwyddiant drwy nodi lle mae gwasanaethau wedi rhagori ar ddisgwyliadau, neu lle nad ydynt yn bodloni disgwyliadau ac mae angen eu hadolygu.

Mwy na Geiriau: ar gyfer pob cynnig polisi a ddatblygir gan gydweithwyr yn y grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

21. **Dd/G** – Nid yw ‘Mwy na geiriau yn gymwys i'r DPCC, am fod y DPCC yn nodi gweledigaeth strategol glir ar gyfer caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n effeithio ar ddefnyddwyr/pobl gwasanaethau iechyd a gofal.

5. Sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Diogelu Data

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Anfonwch eich asesiad i'r Uned Hawl i Wybodaeth gan anfon copi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

Teitl y cynnig: Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

Enw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth: Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi a Deddfwriaeth

Rhif cyfeirnod yr Asesiad Effaith Preifatrwydd (rhif unigryw yr asesiad effaith preifatrwydd hwn fel DivDate neu rif iShare y ddogfen): Rhif adnabod iShare: A64755398

Disgrifiwch eich cynnig:

(i) Os yw'r cynnig yn newid un o systemau / prosiectau / prosesau / polisïau presennol Llywodraeth Cymru, yna amlinellwch y trefniadau presennol (a sut mae data personol yn cael ei brosesu ar hyn o bryd) ac yna amlinellwch y newidiadau, gan gynnwys a fydd data personol bellach yn cael eu prosesu gan drydydd partïon neu eu rhannu â nhw.

1. Bydd DPCC diwygiedig 2026 yn disodli'r DPCC presennol a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Awst 2022. Mae'r DPCC yn ddatganiad polisi strategol, ac nid yw'n sefydlu system weithredol, cronfa ddata, proses rheoli hunaniaeth, trefniant casglu data personol na threfniant rhannu data newydd.

2. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r DPCC yn cysoni polisi a deddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth o gryfhau economi Cymru. Mae'r DPCC yn nodi gweledigaeth strategol glir ar gyfer y ffordd y gall caffael cyhoeddus gefnogi'r uchelgais hon, gan gynnwys sut y gall caffael cyhoeddus helpu i ddatblygu'r gwasanaethau a chreu'r cyfleoedd sydd eu hangen ar Gymru ar gyfer y dyfodol.

(ii) Os yw'r cynnig yn system / yn brosiect / yn broses / yn bolisi newydd i Lywodraeth Cymru, yna rhowch fanylion am y ffordd y bydd y system / y prosiect / y broses / y polisi newydd yn gweithio, gan gynnwys sut y caiff y data personol eu prosesu ac a gaiff y data personol eu prosesu gan drydydd partïon neu eu rhannu â thrydydd partïon.

3. Dd/G – Nid yw'r DPCC yn cyflwyno system na phroses newydd sy'n cynnwys casglu, prosesu neu rannu data personol

(iii) PWYSIG – A fydd y cynnig yn cynnwys datblygu deddfwriaeth / mesurau newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu unrhyw bartïon eraill brosesu data personol. [D.S., os bydd y prosesu yn gofyn am ddeddfwriaeth neu unrhyw fath arall o fesur rheoleiddio i gyfarwyddo rheolydd data, mae'n debygol y bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol o dan Erthygl 36(4) gyda'r ICO a dylid ceisio cyngor yr IRU].

[Dileer fel y bo'n briodol]:

- Na fydd

A yw'r broses sgrinio neu'r asesiad ar gyfer yr effaith diogelu data eisoes wedi'i chynnal/wedi'i gynnal?

- Nac ydy

A yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw waith prosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw un arall?

- Nac ydy: nid oes angen llenwi gweddill y ffurflen hon.

6. Asesiad Effaith Bioamrywiaeth

- Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Ystyriwch Gwestiynau 1 - 9 ar gyfer POB polisi:

<u>Ymgorffori bioamrywiaeth</u>

1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau?

- A ydych wedi ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu o blaid bioamrywiaeth yng nghamau cynnar meddwl neu ddylunio prosiect?
    - Pa effeithiau a gaiff gweithgarwch caffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
    - A geir cynhyrchion o ffynonellau cynaliadwy?
    - A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidiol i fioamrywiaeth?
- A yw'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd ar gyfer cymryd camau cadarnhaol o blaid bioamrywiaeth yng nghamau cynnar meddwl neu ddylunio prosiect?
    - A yw ystyried bioamrywiaeth yn ofyniad ar gyfer ceisiadau am gyllid a manylebau prosiectau?
    - A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

1. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

2. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

3. Nid yw'r DPCC yn integreiddio bioamrywiaeth yn uniongyrchol mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n nodi bod cynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol. Mae'r DPCC yn cynnwys diogelu'r amgylchedd naturiol, lleihau gwastraff, egwyddorion economi gylchol, costau oes gyfan ac effeithiau carbon. Mae hyn yn creu cyfleoedd i Awdurdodau Contractio yng Nghymru nodi effeithiau ar fioamrywiaeth a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth wrth gynllunio, ymgysylltu â'r farchnad, llunio manylebau, gwerthuso a rheoli contractau.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?

- A yw wedi ystyried costau oes gyfan sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol o fewn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os mai proses anffurfiol yw hon?
    - A ydych wedi ystyried sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni gwahanol weithgareddau Llywodraeth Cymru, er enghraifft, i gefnogi hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd a thyfu bwyd yn lleol. (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, lleihau'r defnydd o ynni a gwella systemau draenio.)
- A yw wedi ystyried costau hirdymor diraddio bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r potensial ar gyfer arbedion ar gyfer iechyd a lles, perygl llifogydd ac ati?
- A all annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?

4. Nid yw'r DPCC yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i fioamrywiaeth gael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes. Felly, ni nodwyd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth.

5. Mae'r DPCC yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer ffordd y gall caffael cyhoeddus, gan ddefnyddio gwariant cyhoeddus Cymru, gryfhau economi Cymru. Mae rhan o hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol o fewn eu caffaeliadau unigol.

6. Mae Awdurdodau Contractio yng Nghymru (sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf) hefyd yn cael eu hatgoffa yn y DPCC o'u dyletswydd o dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', sy'n cynnwys y nod o greu “Gymru gydnerth”. Mae'r nod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio perthnasol yng Nghymru ystyried sut y gall eu caffaeliadau gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol.

7. Felly, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried effeithiau ar adnoddau naturiol a bioamrywiaeth o fewn dulliau oes gyfan lle y bo'n berthnasol ac yn gymesur.

3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

- A allwch weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- A allwch hyrwyddo manteision mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus fel gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- A allwch ddarparu neu gael hyfforddiant arbenigol lle y bo angen?
- A allwch chi gysylltu â strategaethau a mentrau cyfathrebu eraill ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?

8. Nid yw'r DPCC yn codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn uniongyrchol, er ei fod yn hyrwyddo cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

4. A ydych wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

- **Rhaid** ichi ystyried
  - y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)
  - yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
  - unrhyw ddatganiad ardal perthnasol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at gofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy'r canlynol
  - Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
  - Atlas of Living Wales
  - Lle

9. Mae'r DPCC yn nodi gweledigaeth strategol glir ar gyfer y ffordd y gall caffael cyhoeddus gefnogi'r flaenoriaeth o gryfhau economi Cymru a datblygu'r gwasanaethau a chreu'r cyfleoedd y mae eu hangen ar Gymru ar gyfer y dyfodol. Er bod cynaliadwyedd yn cael ei ystyried yn ddisgwyliad trawsbynciol ar gyfer Awdurdodau Contractio yng Nghymru, nid yw'r cynnig yn cynnwys adeiladu na rheoli tir, nac yn effeithio'n uniongyrchol ar bryderon ynghylch bioamrywiaeth fel rhywogaethau a chynefinoedd. Felly ni nodwyd unrhyw ffynonellau penodol yn ymwneud â bioamrywiath wrth ddatblygu'r DPCC, ar wahân i gwblhau'r gwaith sgrinio ar gyfer yr asesiad effaith bioamrywiaeth hwn.

5. A ydych wedi defnyddio gwybodaeth gyfredol am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

- A ydych yn gwybod beth yw'r ffactorau ysgogi newid a'r ffactorau negyddol allweddol a allai ddeillio o'ch cynnig?
- A ydych yn fodlon nad yw'r rhain yn gymwys neu eu bod wedi cael eu hosgoi?

10. Mae'r DPCC yn nodi cyfeiriad strategol clir ar gyfer sut y gall caffael cyhoeddus gefnogi'r flaenoriaeth o gryfhau economi Cymru a datblygu'r gwasanaethau a chreu'r cyfleoedd y mae eu hangen ar Gymru ar gyfer y dyfodol. Mae'r DPCC yn ddatganiad caffael strategol yn hytrach na chynnig defnydd tir, rheoleiddio neu ddatblygu, ac ni ddisgwylir iddo gael effeithiau uniongyrchol ar fioamrywiaeth, er ei fod yn hyrwyddo cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol. Mater i bob Awdurdod Contractio yng Nghymru fyddai penderfynu a gaiff eu caffaeliad effeithiau ar fioamrywiaeth a gallai penderfyniadau caffael a wneir gan Awdurdodau Contractio unigol yng Nghymru arwain at risgiau neu gyfleoedd o ran bioamrywiaeth yn dibynnu ar y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau sy'n cael eu comisiynu.

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

- A all gefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion, a chynlluniau monitro?
- A ydych wedi sicrhau y caiff unrhyw ddata bioamrywiaeth a gesglir eu cyhoeddi?

11. Nid yw'r DPCC yn cynnwys yn uniongyrchol gynigion sy'n cyfrannu at ein gwybodaeth am fioamrywiaeth. Fodd bynnag, yn unol â pharagraff 1, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried beth sy'n gymesur ac yn berthnasol i'w caffaeliadau unigol a allai effeithio ar fioamrywiaeth.

<u>Llywodraethu a chymorth i gyflawni camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth</u>

7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu o blaid bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

- A all staff gymryd rhan mewn camau gweithredu ymarferol?
- A allwch ariannu camau gweithredu yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol?
- A allwch gefnogi partneriaethau a/neu drefniadau cydweithio ar gyfer gweithredu lleol neu gymunedol o blaid bioamrywiaeth.

12. Yn unol â pharagraff 1, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried cynaliadwyedd yn eu caffaeliadau unigol, gan gynnwys y ffordd y gall gweithgarwch caffael gefnogi sero net, costau oes gyfan ac effeithiau carbon, cymhwyso'r economi gylchol, lleihau gwastraff a diogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

8. A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu o blaid bioamrywiaeth?

- A allwch gefnogi ennill sgiliau a hyfforddiant?
- A yw eich cynnig yn sicrhau y bydd gan y rhai sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth y lefel briodol o gymwysterau?
- A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu ar gyfer gweithredu o blaid bioamrywiaeth?

13. Nid yw'r DPCC ei hun yn helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu o blaid bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae potensial, drwy gaffaeliadau unigol, lle y dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried cynaliadwyedd yn eu caffaeliadau unigol yn unol â pharagraff 1.

14. Gallai'r DPCC hefyd gefnogi canlyniadau bioamrywiaeth drwy ei amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach. Gall gweithgarwch caffael gynnig cyfleoedd i leihau pwysau ar fioamrywiaeth drwy gaffael yn gyfrifol, lleihau gwastraff a defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy. Gall y dulliau gweithredu hyn hefyd helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan ddyletswydd bioamrywiaeth Adran 6.

9. A ydych wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

- Rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn.

15. Ystyriwyd sut y gallai'r DPCC effeithio ar fioamrywiaeth yn ystod y broses asesu effaith ac, er bod y DPCC yn cefnogi cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol, ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol.

Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu fôr, ystyriwch Gwestiynau 10-16 hefyd:

16. **Dd/G** – Nid yw'r DPCC yn ymwneud ag adeiladu na rheoli tir/môr ac, felly, ni chwblhawyd y cwestiynau canlynol.

7. Asesu Adnoddau Naturiol

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; ac, wrth wneud hynny,
- mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar le.

2. Nid yw'r DPCC yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol yn uniongyrchol. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

3. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

4. Fodd bynnag, mae'r DPCC yn pennu cynaliadwyedd fel disgwyliad trawsbynciol. Mae'r DPCC yn cynnwys diogelu'r amgylchedd naturiol, lleihau gwastraff, egwyddorion economi gylchol, costau oes gyfan ac effeithiau carbon. Mae hyn yn creu cyfleoedd i Awdurdodau Contractio yng Nghymru nodi lle y byddai adnoddau naturiol yn chwarae rhan bwysig o'r caffaeliad, yn ystod y cam cynllunio ac wrth ymgysylltu â'r farchnad, llunio manylebau, gwerthuso a rheoli contractau.

5. **Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur**
   Gall y DPCC alluogi atebion sy'n seiliedig ar natur neu ecosystemau gwydn lle mae'r rhain yn berthnasol i'r pwnc ac yn cael eu nodi drwy fanylebau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ymgysylltu â'r farchnad. Nid yw'n gwneud ateb penodol yn orfodol ym mhob caffaeliad.

6. Yn unol â pharagraff 1, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried cynaliadwyedd yn eu caffaeliadau unigol, gan gynnwys sut y gall gweithgarwch caffael gefnogi sero net, costau oes gyfan ac effeithiau carbon, yr economi gylchol, lleihau gwastraff a diogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

7. Byddai'r dull hwn o weithredu yn cefnogi effeithlonrwydd adnoddau a gallai greu cyfleoedd ar gyfer atebion adnewyddadwy neu atebion sy'n defnyddio llai o adnoddau. Bydd y canlyniad yn dibynnu ar gaffaeliadau unigol – ar beth yw manyleb a diben y contract, a chyflawni gan gyflenwyr.

8. **Dull gweithredu sy'n seiliedig ar le**
   Mae potensial i gefnogi'r gwaith o greu cyfoeth cymunedol. Er enghraifft, drwy fesurau sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol. Mae'r DPCC yn annog Awdurdodau Contractio yng Nghymru, lle y bo'n briodol, i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu cyn y farchnad a allai helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i ddeall anghenion yr ardal leol. Mae cynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol yn y DPCC. Felly, gall manylebau sy'n ystyried cynaliadwyedd (megis sero net, egwyddorion economi gylchol a chostau oes gyfan yn ogystal ag effeithiau carbon) gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd lleol. Gallai ymgysylltu cyn y farchnad hefyd helpu busnesau bach a chanolig, yn ogystal â mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, i gymryd rhan. Gallai'r dulliau hyn helpu i gyflawni canlyniadau sy'n seiliedig ar le. Fodd bynnag, rhaid i weithgarwch caffael barhau i fod yn agored, yn deg, yn dryloyw ac yn gyson â rhwymedigaethau cyfreithiol a rhyngwladol.

A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

9. Nid yw'r DPCC yn pennu dulliau penodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, megis lleihau llygredd sŵn, neu ddiogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas. Fodd bynnag, mae'r DPCC yn nodi bod cynaliadwyedd yn ddisgwyliad trawsbynciol ac yn annog Awdurdodau Contractio yng Nghymru i ystyried sut y gellir adlewyrchu cynaliadwyedd mewn caffaeliadau perthnasol, gan gynnwys yr angen i Awdurdodau Contractio yng Nghymru benderfynu pa gaffaeliadau fyddai fwyaf addas i gymryd camau i leihau pwysau ar adnoddau naturiol ac ystyried sut y gallant gymhwyso sero net, egwyddorion economi gylchol, costau oes gyfan ac effeithiau carbon at gaffaeliadau perthnasol. Gofynnir i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ystyried sut y gall eu caffaeliad helpu i ddiogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

8. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.

2. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

3. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.

4. Disgwylir i'r DPCC gael effaith gadarnhaol ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig drwy annog arferion caffael sy'n atgyfnerthu busnesau yng Nghymru, yn cefnogi BBaChau, yn hyrwyddo gwaith teg ac yn cynyddu'r gwerth a gedwir yng Nghymru.

5. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas Deddf Caffael 2023 ystyried y DPCC a sut y gallant ei gymhwyso o fewn eu caffaeliadau cyhoeddus ac anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i'w gymhwyso.

6. Mae llawer o ardaloedd gwledig yn gartref i fusnesau sy'n gweithredu mewn sectorau a nodir yn y DPCC, gan gynnwys cynhyrchu a phrosesu bwyd a phren, adeiladu, cynnal a chadw, rheoli cyfleusterau, gofal cymdeithasol a gwasanaethau proffesiynol. Drwy annog Awdurdodau Contractio yng Nghymru i ystyried sut y gall gweithgarwch sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl i Gymru a chymunedau yng Nghymru, gallai'r polisi greu cyfleoedd i'r busnesau hyn a chefnogi gweithgarwch economaidd cynaliadwy mewn cymunedau gwledig.

7. Mae'r DPCC hefyd yn hyrwyddo mesurau y bwriedir iddynt wella mynediad at gyfleoedd caffael cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi piblinellau caffael, gofynion caffael cymesur, ymgysylltu cynnar â'r farchnad, strategaethau rhannu'n lotiau a dulliau o gyflwyno cynigion ar y cyd. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r mesurau hyn leihau rhwystrau i gymryd rhan ac annog mwy o gyfranogiad gan BBaChau a

mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

8. Yn ogystal â manteision economaidd, mae'r DPCC yn cydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol a chymunedol. Mae'r polisi yn annog gweithgarwch caffael sy'n cefnogi cymunedau cryfach, yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyfrannu at werth hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

9. Gallai'r DPCC hefyd gyfrannu at leihau anghydraddoldebau gwledig drwy ei bwyslais ar waith teg, twf economaidd cynhwysol a chreu cyfoeth cymunedol. Gallai'r mesurau hyn helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau, busnesau a gweithwyr gwledig ledled Cymru.

10. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol (mis Awst 2026) yn ystod cam datblygu cychwynnol y DPCC. Nodwyd mai'r rhanddeiliaid mewnol hyn oedd y rhai y byddai'r DPCC arfaethedig yn debygol o effeithio ar eu portffolios. Roedd hyn yn cynnwys:

- Tîm Gwaith Teg
- Swyddogion polisi dur
- Swyddogion polisi bwyd
- Swyddogion cyflawni caffael
- Swyddogion polisi a deddfwriaeth caffael
- Swyddogion polisi amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo yn y meysydd canlynol:
    - datgarboneiddio
    - sero net
    - hinsawdd
    - economi gylchol
    - economi sylfaenol
- Swyddogion polisi gwerth cymdeithasol
- Swyddogion polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11. Ni fu ymgysylltu yn benodol â rhanddeiliaid gwledig. Fodd bynnag, bwriedir ymgysylltu ymhellach drwy ymgynghoriad cyhoeddus, a fydd yn gwahodd ymgysylltu pellach, lle y gall cyflenwyr, Awdurdodau Contractio yng Nghymru ac aelodau o'r cyhoedd yn fwrw golwg dros y DPCC drafft a chyflwyno sylwadau. Ystyrir adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn a, lle y bo'n gymwys, caiff y DPCC ei ddiwygio ac, os yw'n briodol, caiff yr asesiad effaith wledig hwn ei ddiweddaru.

9. Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

1. A fydd eich polisi / gweithgaredd yn effeithio ar Amaethyddiaeth?

2. Bydd, er y bydd yr effaith yn un anuniongyrchol. Polisi caffael sy'n gymwys i Awdurdodau Contractio yng Nghymru a gwmpesir gan Ddeddf Caffael 2023 yw'r DPCC. Nid yw'n rheoleiddio arferion ffermio, gweithgarwch cynhyrchu amaethyddol, cynlluniau cymorth amaethyddol na gwaith rheoli tir.

3. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

4. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru, y gallai busnesau amaethyddol a / neu gymorth amaethyddol gael mynediad atynt.

2. A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â chymorth i amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol?

5. Nid oes unrhyw ofynion uniongyrchol o ran rheoli tir wedi'u cynnwys. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau caffael a chanlyniadau caffael, y gall y sector a/neu adrannau amaethyddol o fewn Llywodraeth Cymru gael mynediad atynt drwy eu fframweithiau caffael.

3. A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â rheoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol?

6. Ddim yn uniongyrchol. Mae'r DPCC yn creu'r fframwaith strategol y gellir ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r sector amaethyddol ond nid yw'n sefydlu mecanweithiau cymorthdaliadau, taliadau na chymorth amaethyddol yn uniongyrchol.

Os mai 'ydy' yw'r ateb i unrhyw un o'r uchod, bydd angen ichi ystyried effaith eich polisi (cymorth neu reoleiddio) yn unol â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

<u>Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy:</u>

Cwestiwn 2: Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, yn erbyn yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

7. Byddai effeithiau uniongyrchol yn erbyn yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyflawni o dan gaffaeliadau unigol. Bydd maint yr effaith yn dibynnu ar gyd-destun y caffaeliad a'r ffordd y caiff yr ysgogiadau caffael yn y DPCC eu cymhwyso mewn caffaeliadau unigol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1.

8. Mae'r DPCC yn atgoffa Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol o'u dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn annog yr Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru na chânt eu cwmpasu gan y Ddeddf hon i ystyried sut y gall eu gweithgarwch caffael gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

9. Mae cynaliadwyedd yn un o ddisgwyliadau trawsbynciol y DPCC, gyda'r DPCC hefyd yn hyrwyddo creu cadwyni cyflenwi gwydn, cefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach a helpu busnesau yng Nghymru i gystadlu. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys yr ymrwymiadau hyn. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dulliau gweithredu hyn lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

10. Gellir gwneud hyn drwy Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ceisio lleihau neu ddileu rhwystrau i fusnesau yng Nghymru a BBaChau yng Nghymru, drwy'r ysgogiadau caffael a ddarperir yn y DPCC – megis hysbysu'r farchnad yn gynnar am gaffaeliadau sydd ar ddod drwy hysbysiadau piblinell, mwy o ymgysylltu cyn y farchnad a defnyddio'r dull rhannu'n lotiau (sef rhannu contractau mwy yn gyfleoedd llai er mwyn lleihau rhwystrau). Gallai'r camau gweithredu hyn leihau neu ddileu rhwystrau sy'n atal BBaChau a busnesau yng Nghymru rhag cael mynediad at

gaffael cyhoeddus, a helpu i leihau hyd cadwyni cyflenwi a chynyddu faint o fwyd a gaffaelir yn lleol.

11. Mae cynaliadwyedd hefyd yn un o ddisgwyliadau trawsbynciol y DPCC. Mae'r datganiad yn annog Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol i gefnogi sero net, lleihau gwastraff, cymhwyso egwyddorion economi gylchol, ystyried costau oes gyfan ac effeithiau carbon a diogelu'r amgylchedd naturiol.

12. Mae hyn yn creu cyfleoedd i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol nodi lle y byddai adnoddau naturiol, effeithiau ar yr hinsawdd neu wydnwch ecosystemau yn chwarae rhan bwysig yn y caffaeliad. Dylid ystyried y ffactorau hyn yn ystod y cam cynllunio ac wrth ymgysylltu â'r farchnad, llunio manylebau, gwerthuso a rheoli contractau.

13. Fel y cyfeirir ato yn yr Asesiad Effaith Wledig, mae'r DPCC yn cydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol a chymunedol. Mae'r polisi yn annog gweithgarwch caffael sy'n cefnogi cymunedau cryfach, yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyfrannu at werth hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cwestiwn 3: Ystyriwch sut y caiff eich polisi ei roi ar waith yn y modd sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (i'r graddau y bo'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol).

14. Mae'r ffordd y caiff y DPCC ei roi ar waith yn y modd sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn dibynnu ar sut mae Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ymdrin â chaffaeliadau unigol.

15. Mae potensial ar gyfer cyfraniad cadarnhaol os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol yn ystyried yr egwyddorion cynaliadwyedd yn y DPCC, a'u dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn erbyn yr ysgogiadau caffael sydd ar gael yn y datganiad. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

16. Mae'r DPCC yn cefnogi defnyddio hysbysiadau piblinell i hysbysu'r farchnad am gaffaeliadau sydd ar ddod, i ymgymryd â mwy o weithgarwch ymgysylltu cyn y farchnad lle y bo'n briodol a defnyddio'r dull rhannu'n lotiau (sef rhannu contractau mwy yn gyfleoedd llai er mwyn lleihau rhwystrau). Gallai'r camau gweithredu hyn leihau neu ddileu rhwystrau sy'n atal BBaChau a busnesau yng Nghymru rhag cael mynediad at gaffael cyhoeddus a helpu i leihau hyd cadwyni cyflenwi.

17. Gallai cadwyni cyflenwi cryfach a mwy o gyfleoedd i BBaChau a busnesau yng Nghymru dendro'n llwyddiannus wneud cyfraniad cadarhnaol at sicrhau bod mwy o fwyd yn cael ei gaffael yn lleol a lleihau ôl troed carbon.

18. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y defnyddir gweithgarwch caffael, lle y bo'n

briodol, i gefnogi sero net, lleihau gwastraff, cymhwyso egwyddorion economi gylchol, ystyried costau oes gyfan ac effeithiau carbon a diogelu'r amgylchedd Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Drwy ystyried yr opsiynau hyn wrth gaffael, mae'n bosibl y gellid lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn gadarnhaol a gwella gwydnwch ecosystemau. Gallai ecosystemau gwydn wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

19. Mae'r DPCC yn annog gweithgarwch caffael sy'n cefnogi cymunedau cryfach, yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyfrannu at werth hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ystyrir bod y Gymraeg yn ymrwymiad trawsbynciol yn y DPCC. Yn unol â pharagraff 1, dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio gweithgarwch caffael i hyrwyddo'r Gymraeg lle y bo'n bosibl.

20. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried sut y gall gweithgarwch caffael gryfhau cymunedau Cymraeg a gwell llesiant cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull hwn o weithredu lle y bo'n berthnasol ac yn briodol. Gallai hyn ddigwydd drwy swyddi, prentisiaethau a mynediad gwell at gyfleoedd i fusnesau yng Nghymru, (er enghraifft, defnyddio gweithgarwch ymgysylltu cyn y farchnad neu gontractau llai drwy lotiau).

10. Asesiad Effaith Carbon

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr? Dd/G

Dim newid sylweddol mewn allyriadau

2. Mae swyddogion wedi ystyried effaith carbon y datganiad hwn. Nid ydym wedi mesur yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag ef am ein bod yn disgwyl iddynt ostwng islaw'r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae gennym lefel uchel o hyder yn ein hasesiad.

3. Disgwylir i’r DPCC gael dylanwad cadarnhaol ar y broses o ystyried effeithiau carbon o fewn caffael cyhoeddus drwy ei gefnogaeth i sero net, egwyddorion economi gylchol, lleihau gwastraff, costio oes gyfan a chadwyni cyflenwi cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n cyflwyno gofynion, targedau nac ymyriadau gorfodol penodol y gellir eu mesur fel rhai sy'n arwain yn uniongyrchol at newidiadau mewn allyriadau sy'n cyfateb i tua 200,000 tunnell o allyriadau CO_2 yn ystod ei oes.

4. Disgwylir i unrhyw effeithiau carbon fod yn rhai anuniongyrchol, yn dibynnu ar benderfyniadau caffael a wneir wedi hynny gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru a'r contractau a ddyfernir ganddynt. I raddau helaeth mae'r DPCC yn adlewyrchu ac yn dwyn ynghyd safbwyntiau polisi a disgwyliadau presennol Llywodraeth Cymru o ran caffael, y mae llawer ohonynt eisoes ar waith ac wedi cael eu hystyried drwy eu prosesau datblygu polisi, asesu a gweithredu eu hunain.

5. O ganlyniad, ni ddisgwylir i'r DPCC ei hun gynhyrchu effeithiau nwyon tŷ gwydr ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn gysylltiedig â'r polisïau sylfaenol y mae'n cyfeirio atynt. Er bod y datganiad yn parhau i gefnogi arferion caffael cynaliadwy ac yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried effeithiau carbon wrth wneud penderfyniadau caffael, ni ellir dangos newid sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r fersiwn ddiwygiedig hon o'r DPCC.

11. Dyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol. **Dim ond os bydd eich polisi yn cael unrhyw effeithiau ar y ffordd y darperir gwasanaethau iechyd neu ar ganlyniadau iechyd y bydd angen ichi gwblhau'r adran hon o'r Asesiad Effaith Integredig.**

1. Nid fydd y DPCC yn effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau iechyd nac ar ganlyniadau iechyd ac, felly, nid yw'r asesiad effaith 'Dyletswydd Ansawdd (Iechyd)' wedi'i gwblhau.

2. Er y gall Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddefnyddio'r DPCC i ystyried gweithgarwch caffael sy'n gysylltiedig ag iechyd, nid yw'r DPCC ei hun yn ceisio rheoleiddio swyddogaethau iechyd na'r ffordd y dylid darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

3. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

4. Mae’r DPCC yn cyflwyno blaenoriaeth gyffredinol unigol: atgyfnerthu economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, tecach a mwy gwydn, cynnal mwy o werth o fewn Cymru a chynyddu’r manteision a gyflawnir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau Cymru.

A allai'r cynnig effeithio ar ansawdd gwasanaethau iechyd?

5. Na allai. Mae a wnelo'r cynnig â pholisi caffael ac nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau iechyd nac ansawdd na safonau gwasanaethau o'r fath. Mae a wnelo'r Ddyletswydd Ansawdd â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd lle mae swyddogaethau iechyd yn cael eu harfer.

A yw'r cynnig yn ymwneud â Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau iechyd?

6. Nac ydy. Mae a wnelo'r cynnig â pholisi caffael cyhoeddus yn hytrach na swyddogaethau gwasanaethau iechyd neu bolisi gofal iechyd.

A allai'r cynnig effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu comisiynu, eu rheoli neu eu sicrhau neu ar berfformiad gwasanaethau o'r fath?

7. Na allai. Ni fydd y cynnig yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu comisiynu, eu rheoli, eu sicrhau neu eu darparu. Byddai unrhyw effeithiau ar sefydliadau'r GIG yn codi drwy eu gweithgarwch caffael yn hytrach na darpariaeth gofal iechyd.

A oes unrhyw effeithiau posibl wedi'u cyfyngu i ganlyniadau iechyd a lles ehangach?

8. Oes. Mae unrhyw effeithiau yn rhai anuniongyrchol ac mae a wnelont â phenderfynyddion ehangach iechyd a lles, y mae'n fwy priodol eu hystyried drwy'r Asesiad Effaith Iechyd yn hytrach na'r asesiad Dyletswydd Ansawdd.

12. Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

1. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried Datganiad Polisi Cyffael Cymru (DPCC) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

2. **Enw'r penderfyniad:** Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

3. **Diben/ Nod y penderfyniad:** Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.

4. Mae’r DPCC yn cyflwyno blaenoriaeth gyffredinol unigol: atgyfnerthu economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, tecach a mwy gwydn, cynnal mwy o werth o fewn Cymru a chynyddu’r manteision a gyflawnir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau Cymru.

Rhesymeg y cytunwyd arni dros b'un a yw hwn yn ‘benderfyniad strategol’ ai peidio:

1) A allai'r penderfyniad hwn leihau anghydraddoldebau canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhowch fanylion anghydraddoldebau canlyniad a allai gael eu lleihau o fewn cwmpas y penderfyniad.

5. Mae'r DPCC yn nodi gweledigaeth strategol glir ar gyfer sut y gellir defnyddio caffael cyhoeddus i gryfhau economi Cymru a datblygu'r gwasanaethau a chreu'r cyfleoedd sydd eu hangen ar Gymru ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y potensial i ennill, iechyd corfforol ac iechyd meddwl na chyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae gwaith teg yn elfen bwysig o'r DPCC. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, ymgorffori canlyniadau Gwaith Teg a llesiant lle y bo'n berthnasol ac yn briodol yn eu caffaeliadau.

6. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn hyrwyddo gwaith teg drwy gaffael cyhoeddus drwy annog cyflogaeth ddiogel a boddhaol, gan sicrhau drwy fanylebau, meini prawf dyfarnu ac amodau contract bod datblygu'r gweithlu, cyflogaeth ddiogel, gwobrwyo teg, cydraddoldeb ac arferion gwaith diogel yn cael eu cefnogi. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

7. Felly, gallai'r broses o roi'r DPCC ar waith helpu i gynyddu'r potensial i ennill yn anuniongyrchol drwy gyflogaeth ddiogel a gwobrwyo teg, gan wella iechyd meddwl, o bosibl, drwy gydraddoldeb ac amodau gwaith diogel.

8. Mae'r DPCC yn cefnogi buddsoddi mewn sgiliau lleol, cyflogadwyedd a chyfleoedd i gamu ymlaen, megis defnyddio prentisiaethau, cynnig hyfforddiant a datblygu'r gweithlu a darparu ar gyfer y rhain mewn manylebau tendrau. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, gan gynnwys ym mha ffordd y gallent roi'r ysgogiadau caffael hyn ar waith yn eu caffaeliadau cyhoeddus. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y potensial i ennill a chynnig safonau byw gwell.

9. Mae creu cyfoeth cymunedol yn ceisio atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol, gan gadw gwerth mewn cymunedau yng Nghymru. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 1, ddefnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd a chymunedol lle y bo'n bosibl, a allai gyfrannu at wella hygyrchedd gwasanaethau a/neu gynyddu lefelau cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol, a lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol-economaidd.

2) Pa wybodaeth sydd gennych am bobl yr effeithir arnynt gan anghydraddoldebau canlyniad sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwn? Ystyriwch grwpiau â nodweddion gwarchodedig, grwpiau o'r boblogaeth / cymunedau buddiant a chymunedau lle. Os nad oes tystiolaeth ar gael, neu os nad ydych yn siŵr, nodwch hyn yn glir.

Rhowch drosolwg.

10. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid mewnol i ddechrau (Awst 2026), gan gynnwys Tîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ei ddiweddaru.

3) Sut rydych wedi casglu'r wybodaeth hon sy'n ymwneud â phobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt? Er enghraifft, gallai hyn fod drwy ymgysylltu â chymunedau dan anfantais gymdeithasol-economaidd, data cydraddoldeb, neu ymchwil a thystiolaeth a gafwyd o asesiadau effaith eraill (e.e. Asesiad Effaith Cydraddoldeb neu Asesiad Effaith Iechyd).

Rhowch drosolwg

11. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid mewnol i ddechrau (Awst 2026). Fodd bynnag, caiff rhagor o dystiolaeth ei chasglu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu

negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ei ddiweddaru.

4) A oes gennych drywydd archwilio sy'n dangos pryd a sut mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i hystyried drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau?

Nodwch pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn a chynnwys dolenni i unrhyw ddogfennau ategol.

12. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid mewnol i ddechrau (Awst 2026), gan gynnwys y Tîm Gwaith Teg a gafodd gyfle i fwrw golwg dros y DPCC. Ystyrir adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn a, lle y bo'n gymwys, caiff y DPCC ei ddiwygio ac, os yw'n briodol, caiff yr asesiad effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol hwn ei ddiweddaru.

5) Rhowch grynodeb o'r ffordd y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar anghydraddoldebau canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol?

13. Gallai'r DPCC leihau anghydraddoldebau canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol drwy annog y defnydd o brentisiaethau o fewn manylebau caffael, arferion gwaith teg megis cyflogaeth ddiogel a gwobrau teg, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.